# Newyddion Archif 3



## Newyddion Diweddaraf: 3

### Is-lywydd Anrhydeddus am Oes

**Rydym yn falch i gyhoeddi fod y cyn Ymddiriedolwr, aelod sylfaenol ac Ymgynghorydd Hanes MYDG, David Maddox OBE wedi cytuno i fod yn Is-lywydd Anrhydeddus am Oes y Fenter.**



David Maddox OBE, Is-lywydd Anrhydeddus am Oes

### DATHLU EIN 25ain MLWYDDIANT



Pwyllgor Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn y Senedd.

I ddathlu'r garreg filltir bwysig hon yn hanes y Fenter trefnwyd derbyniad arbennig yn Y Senedd, Bae Caerdydd, ar Fedi 15fed, 2015. Braf oedd gallu croesawu ein noddwyr, ein beirniaid a'n hysgolion arobryn i gwrdd ag Aelodau'r Cynulliad yn y digwyddiad hwn. Aelod Cynulliad Llanelli, Keith Davies oedd yn noddi'r derbyniad a'r siaradwr gwadd oedd Leighton Andrews, AC y Rhondda. Yn ei araith pwysleisiodd ef bwysigrwydd dysgu Hanes Cymru yn y cwricwlwm cenedlaethol a chanmolodd y Fenter am gynnal cystadleuaeth i ddathlu llwyddiannau ysgolion, athrawon a disgyblion yn y maes hwn.

Siaradodd Dr Carol James, Pennaeth Ysgol Gynradd Gymorthedig Pen-boyr, Sir Gaerfyrddin ar ran y sector gynradd gan nodi sut y bu i'w hysgol fanteisio'n fawr yn addysgol ac ariannol o gystadlu'n gyson; ac ar ran yr ysgolion uwchradd dangosodd Owen Rhys Thomas, Pennaeth Hanes yn Ysgol Uwchradd Maes Garmon, yr Wyddgrug, sut yr oedd y disgyblion wedi elwa trwy ymchwilio'u prosiect ar y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafwyd areithiau disglair gan ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Treorci a oedd wedi ennill cyfle i fynychu cynhadledd Eustory yn Olsztyn, Gwlad Pwyl yn sgil y gystadleuaeth. I derfynu olrheiniodd David Maddox OBE hanes cynnar sefydlu'r Fenter yn 1990 a'r ddyled enfawr i'r Fonesig Danusia Trotman-Dickenson am ei gweledigaeth a'i dyfalbarhad gydol y blynyddoedd.

Ar ôl yr areithiau ffurfiol cafodd yr ysgolion buddugol gyfle i arddangos eu prosiectau i'r noddwyr ac i Aelodau'r Cynulliad.



Disgyblion ac athrawon Ysgol Fabanod Baglan gyda'r beirniad, Ann Rosser



Disgyblion Ysgol Albany Caerdydd gyda'u prosiect ar y Rhyfel Byd Cyntaf



Disgyblion Ysgol Pen-boyr yn cyfweld Cadeirydd y Fenter, Catrin Stevens, am y gystadleuaeth



Disgyblion Ysgol Maes Garmon gyda'r Aelodau Cynulliad, Mark Isherwood ac Aled Roberts, Dr Elin Jones aelod o Bwyllgor y Fenter a'u hathro, Owen Rhys Thomas.



Pennaeth yr Adran Hanes, Hedd Ladd Lewis a disgyblion Ysgol Dyffryn Teifi yn egluro'u prosiect ar y Rhyfel Byd Cyntaf i Keith Davies AC



Enillwyr Eustory yn trafod eu prosiect gyda Leighton Andrews, AC



David Maddox OBE a olrheiniodd hanes sefydlu'r Fenter yn 1990.

### Newyddion - Archif

Newyddion Archif 6

Newyddion Archif 5

Newyddion Archif 4

Newyddion Archif 3

Newyddion Archif 2

Newyddion Archif 1

### Enillwyr tariannau Amgueddfa Cymru i'r ymgais gorau ym mhob category ac enillydd gwobr Eustory

Gwbor Sefydliad Hodge £1,000
**Ysgol Gynradd BAGLAN**



---

Gwbor Sefydliad Hodge £1,000
**Ysgol MAES Y COED**



---

GWOBR GRŴP ADMIRAL PLC (Ymddiriedolaeth Moondance) £700 a GWOBR ARCHIF MENYWOD CYMRU £300
**Ysgol PENBOYR**



---

GWOBR GRŴP ADMIRAL PLC (Ymddiriedolaeth Moondance) £1,000
**Ysgol Gynradd ALBANY ROAD**



---

GWOBR GRŴP ADMIRAL PLC (Ymddiriedolaeth Moondance) £1,000
**Maes GARMON**



---

GWOBR GRŴP ADMIRAL PLC (Ymddiriedolaeth Moondance) £750
**YSGOL GYFUN TREORCI – Enillydd EUSTORY**



---

Adroddiad Cryno Enillwyr 2015

© WHSI. 2020. The Welsh Heritage Schools Initiative is an independent registered charity (No. 1048155). Its Trustees are: Catrin Stevens, Dr Stuart Broomfield, Alun Morgan.

Privacy Policy